# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD AML-LEOLIAD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA A THRWY MICROSOFT TEAMS DYDD MERCHER 1 MAI 2024 AM 1PM

YN BRESENNOL:

Cadeirydd:

Y Cynghorydd S. Morgan – Cadeirydd

Cynghorwyr:

J. Pritchard (Aelod Cabinet dros Ffyniant, Adfywio a Newid yn yr Hinsawdd), P. Leonard (Aelod Cabinet dros Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd), C. Morgan (Aelod Cabinet dros Wastraff, Hamdden a Mannau Gwyrdd), E. Stenner (Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad), S. Cook (Aelod Cabinet dros Dai), C. Andrews (Aelod Cabinet dros Addysg) ac E. Forehead (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol).

Ynghyd â:

R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), ac M. S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Cymunedau).

Hefyd yn bresennol:

R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), L. Lane (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a Dirprwy Swyddog Monitro), L. Kabza (Cydlynydd Cyfranogiad Ieuenctid a Phrosiectau Cwricwlwm), P. O'Neil (Uwch Reolwr Gwasanaethau Ieuenctid) , S. Harris (Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol a Swyddog Adran 151), L. Donavan (Pennaeth Gwasanaethau Pobl) ac E. Townsend (Rheolwr Iechyd a Diogelwch)

Hefyd yn bresennol:

I. D. Beecham (Aelod Cabinet Fforwm Ieuenctid Caerffili Saffach)

**TREFNIADAU RECORDIO A PHLEIDLEISIO**

Atgoffodd yr Arweinydd y rhai oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, ac y byddai recordiad ar gael i'w weld drwy wefan y Cyngor, ac eithrio ar gyfer trafodaethau yn ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig. Cliciwch yma i weld.

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd N. George, C. Harrhy (Prif Weithredwr) a D. Street (Dirprwy Brif Weithredwr).

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim un wedi dod i law.

## 3. COFNODION – DYDD MERCHER 6 MAWRTH 2024.

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2024 fel cofnod cywir.

## 4. COFNODION – DYDD MERCHER 20 MAWRTH 2024

PENDERFYNWYD yn amodol ar ychwanegu enw'r Cynghorydd C. Andrews at restr y rhai oedd yn bresennol, cymeradwyo cofnodion y Cabinet Arbennig a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2024 fel cofnod cywir.

## 5. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET – I'W NODI

Darparwyd i'r Cabinet Flaenraglen Waith y Cabinet, a oedd yn manylu ar yr adroddiadau a drefnwyd tan 24 Gorffennaf 2024.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd nodi'r Flaenraglen Waith. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

## 6. BLAENORIAETHAU'R FFORWM IEUENCTID

Croesawodd y Cabinet Aelodau'r Fforwm Ieuenctid.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn hysbysu'r Aelodau o'r materion a godwyd gan bobl ifanc trwy Fforwm Ieuenctid y Gwasanaethau Ieuenctid a gofynnodd am farn y Cabinet ar sut i fynd i'r afael â'r materion a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Nodwyd bod yr adroddiad wedi cael ystyriaeth gan y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 20 Mawrth 2024 ac, yn y cyfarfod hwnnw, gofynnodd y Pwyllgor Craffu am drefnu Seminar Pob Aelod ar fepio. Roedd yr Aelod Cabinet yn falch o gadarnhau bod hyn wedi'i drefnu ar gyfer 13 Mehefin 2024.

Amlinellodd Aelod Cabinet Fforwm Ieuenctid Caerffili Saffach, Ioan Beecham, y broses a gynhelir bob blwyddyn i nodi ei faterion blaenoriaeth. Nodwyd bod pobl ifanc wedi nodi a phleidleisio ar eu materion blaenoriaeth o dan y 5 baner allweddol, Caerffili sy'n Dysgu, Caerffili Ffyniannus, Caerffili Saffach, Caerffili Iachach a Chaerffili Wyrddach. Roedd y materion a nodwyd yn y meysydd hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o beryglon cyffuriau a fepio, yr argyfwng costau byw, diogelwch personol ar drafnidiaeth gyhoeddus a cherdded adref gyda'r nos, addysgu pobl ifanc am ddelwedd corff cadarnhaol a'r realiti yn erbyn dylanwad cyfryngau cymdeithasol a sbwriel, yn enwedig yr angen am finiau mwy amlwg yn ein cymunedau ac annog pobl i fod yn fwy ymwybodol o'r amgylchedd. Nododd y Cabinet gyda 28% o'r bleidlais mai Caerffili sy'n Dysgu oedd y mater blaenoriaeth cyffredinol i bobl ifanc.

Nododd y Cabinet fod y Fforwm Ieuenctid wedi cynnal ymgynghoriad mewn perthynas â'i faterion blaenoriaeth a'r hyn o fewn cyrraedd i fynd i'r afael â'r mater blaenoriaeth, codi

ymwybyddiaeth ohono a chydweithio â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i roi sylw dyledus i'r mater a chyflawni canlyniad cadarnhaol.

Diolchodd y Cabinet i Mr Beecham am ei gyflwyniad llawn gwybodaeth a chafwyd trafodaeth.

Holodd Aelod sut y byddai'r Cyngor yn cynorthwyo'r Fforwm Ieuenctid i gyflawni'r blaenoriaethau a godwyd ganddyn nhw. Dywedwyd wrth yr aelodau bod gwasanaeth ieuenctid yr Awdurdod Lleol yn cynorthwyo gwaith y Fforwm Ieuenctid ac yn bwriadu gweithio mewn partneriaeth â Safonau Masnach yr Heddlu, Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac Ysgolion Iach i godi ymwybyddiaeth o'r materion a godwyd.

Cwestiynodd Aelod a oedd unrhyw newid wedi bod yn y ddeddfwriaeth mewn perthynas ag arddull hysbysebu fepio gan gwmnïau a oedd yn ymddangos i fod wedi'i dargedu'n fawr iawn at bobl ifanc a'r hyn y gallai'r Cyngor ei wneud i helpu. Nododd y Cabinet fod gweithgor wedi'i sefydlu i ymchwilio i'r mater hwn.

Cynghorodd y Swyddog y Cabinet, yn dilyn awgrym gan Aelod o'r Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch a allai'r Fforwm Ieuenctid gyfeirio'r mater o fepio at eu Haelod Seneddol lleol neu Aelod Cynulliad, fod hyn wedi cael sylw ac, er mwyn trafod y mater, byddai angen i'r Fforwm Ieuenctid gael 10,000 o lofnodion. Awgrymodd y Cabinet ddull gweithredu rhanbarthol gyda Fforymau Ieuenctid eraill, cael Aelodau wardiau lleol a chysylltu â chlybiau chwaraeon i gyflawni hyn. Cytunodd y Swyddog y byddai dull rhanbarthol yn bosibl ac y byddai'n mynd â hyn ymlaen i'r cyfarfod rhanbarthol nesaf.

Ceisiodd y Cabinet eglurhad ynghylch a yw'r ddarpariaeth newydd ym Mharc Virginia yn rhoi cyfle i gael mwy o lais ieuenctid. Cadarnhaodd swyddogion fod yr holl faterion blaenoriaeth wedi'u cynnwys yng nghwricwlwm y Gwasanaethau Ieuenctid, gyda ffocws ar fepio fel y mater blaenoriaeth mwyaf blaenllaw. Nodwyd bod Parc Virginia yn y cam cyntaf o weithredu gyda nifer y bobl ifanc sy'n cael cymorth yn y cannoedd; fodd bynnag, byddai hyn yn dyblu o fewn y flwyddyn ac, o fewn 3 blynedd, byddai tua 3,000 o bobl ifanc yn cael cymorth. Datblygwyd adnoddau cwricwlwm ar y mater blaenoriaeth hwn ac fe'u dosbarthwyd er gwybodaeth i'r Cabinet.

Diolchodd y Cabinet i Is-Gadeirydd y Fforwm Ieuenctid yr Aelod Cabinet dros Gaerffili Saffach.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhellion. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy ddefnyddio Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol yn:

1. a) Cynorthwyo cyflwyno materion y Fforwm Ieuenctid, gan bobl ifanc, i'r Cabinet.

2. b) Ystyried sut i gynorthwyo'r Fforwm Ieuenctid i fynd i'r afael â'u Materion Blaenoriaeth.

3. Rhoddwyd sylw dyledus i'r materion a godwyd yn yr adroddiad gan bobl ifanc wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

## 7. DIWEDDARIAD CHWE MIS AR GWYNION CORFFORAETHOL A DDAETH I LAW AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL 2023 I 30 MEDI 2023.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a roddodd drosolwg i'r Cabinet o'r cwynion yr ymdriniwyd â nhw o dan y polisi Cwynion Corfforaethol am y cyfnod o chwe mis o 1 Ebrill i 30 Medi 2023 ynghyd â'r canlyniadau a'r gwersi wedi'u dysgu.

Nodwyd bod yr adroddiad hwn wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 16 Ebrill 2024.

Gofynnodd y Cabinet am ragor o wybodaeth ynghylch a oedd unrhyw o'r cwynion y manylwyd arnyn nhw yn yr adroddiad wedi'u cadarnhau gan yr Ombwdsmon. Dywedodd y Swyddog o'r 14 o gwynion wedi'u cyfeirio at yr Ombwdsmon nad oedd un ohonyn nhw wedi cael eu hymchwilio. Fodd bynnag, roedd 2 ddatrysiad cynnar.

Gofynnodd y Cabinet i'r Swyddog esbonio datrysiad cynnar. Eglurodd y Swyddog mai "atebion cyflym" y cyfeirir at y rhain yn gyffredin, sef setliadau gwirfoddol wedi'u cytuno gyda'r Ombwdsmon, er enghraifft i ymddiheuro a chymryd camau penodol i ddatrys y gŵyn ac osgoi'r angen am ymchwiliad ffurfiol.

Nododd y Cabinet mai'r cyfartaledd cyffredinol wrth ymdrin â chwyn oedd 85.54% a gofynnodd am eglurhad ar y rhwystrau i gyrraedd 100%. Eglurodd y Swyddog y byddai'r rhain yn bethau fel absenoldeb staff ac aros am ragor o wybodaeth, neu efallai ei bod yn cymryd mwy o amser i ymchwilio i fater nag oedd y disgwyl yn wreiddiol. Sicrhaodd y Swyddog y Cabinet fod swyddogion yn ystyried ffyrdd o wella amseroedd ymateb targed, megis darparu ymatebion llafar ac yna cadarnhad ysgrifenedig, sy'n cydymffurfio ag amserlenni ac yn darparu canlyniad mwy amserol i'r gŵyn wedi'i chodi.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, a thrwy Microsoft Forms a phleidlais lafar, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

> PENDERFYNWYD bod y Cabinet, am y rhesymau wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddogion, wedi adolygu ac asesu effeithiolrwydd ymdrin â chwynion am y cyfnod o chwe mis rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2023 a nododd y data cwynion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

## 8. AIL-DDEFNYDDIO CRONFEYDD WRTH GEFN A GLUSTNODWYD GAN Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn i'r Cabinet ystyried defnydd amgen o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn ymestyn nifer o drefniadau tymor penodol a roddwyd mewn lle i liniaru problemau capasiti ar draws y gyfadran.

Yn yr adroddiad, nodwyd tua £793 mil o falansau wrth gefn y Gwasanaethau Cymdeithasol a glustnodwyd at ddibenion penodol mewn blynyddoedd cynharach nad oes eu hangen mwyach, o ganlyniad i ddigwyddiadau diweddar, at eu diben gwreiddiol. O ganlyniad, cynigiwyd ail-fuddsoddi'r balansau hynny a glustnodwyd i barhau i ddarparu amrywiaeth o drefniadau dros dro sydd ar waith ar hyn o bryd i fynd i'r afael â phwysau gweithlu ar draws y gyfadran.

Byddai ail-ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn caniatáu i'r trefniadau dros dro hyn aros yn eu lle trwy gydol 2024/25 ac, mewn rhai achosion, hyd at 2025/26. Byddai hyn yn caniatáu peth amser i ddyfodol mwy hirdymor y trefniadau dros dro hyn gael eu hystyried yng nghyd-destun pwysau ariannol eraill a wynebir gan y gyfadran yn 2025/26 a blynyddoedd dilynol.

Ceisiodd y Cabinet gadarnhad bod y Pennaeth Cyllid yn fodlon o ran symud y cronfeydd wrth gefn o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Cadarnhaodd y Swyddog yr ymgynghorwyd yn llawn ag ef ynghylch yr adroddiad a'i fod yn cefnogi'r cynigion.

Cyfeiriodd y Cabinet at yr adroddiad a gofynnodd am eglurhad ar sut y byddai'r swyddi ychwanegol o fewn Fy Nhîm Cefnogi yn cael eu hariannu o refeniw Gwasanaethau i Blant. Eglurodd Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol fod y prosiect Fy Nhîm Cefnogi wedi'i sefydlu ar sail buddsoddi i arbed. Mae'r tîm yn talu amdano'i hun ac yna'n gwneud arbedion ar leoliadau drwy ddychwelyd plant i'r Sir o leoliadau y tu allan i'r Sir, neu

drwy eu camu i lawr o ofal preswyl i ofal maeth neu fynd adref. Y llynedd, gwnaeth y tîm arbedion o tua £1 miliwn ar ôl ariannu ei hun.

Cydnabu'r Cabinet y gwaith gwych gan y prosiect Fy Nhîm Cefnogi a nododd nad oedd gwerth ariannol yn unig ond, yn bwysicach fyth, canlyniad i werth plant.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, a thrwy Microsoft Forms a phleidlais lafar, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

> PENDERFYNWYD cymeradwyo ail-ddefnyddio cronfeydd wrth gefn y Gwasanaethau Cymdeithasol a nodir yn yr adroddiad ac a grynhoir yn atodiad 1, am y rhesymau yn adroddiad y Swyddogion.

## 9. POLISÏAU IECHYD A DIOGELWCH

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn am gytundeb y Cabinet mewn perthynas â thri pholisi Iechyd a Diogelwch wedi'u diweddaru.

Nodwyd bod gan y Cyngor nifer o bolisïau ar waith sy'n nodi ei ddull o reoli risgiau iechyd a diogelwch allweddol. Mae'r Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, y Polisi Cyfarpar Sgrin Arddangos a'r Cynllun Rheoli Asbestos Corfforaethol wedi'u hadolygu fel rhan o raglen adolygiadau polisïau Iechyd a Diogelwch. Mae'r polisïau hyn wedi'u hystyried gan y Grŵp Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ac mae'r holl adborth wedi'i gynnwys yn y polisïau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Anerchodd Pennaeth Gwasanaethau Pobl bryderon a godwyd gan y Cabinet ynghylch y polisi Sgrin Arddangos a dywedodd mai cyfrifoldeb pob gweithiwr yw sicrhau eu bod nhw'n cynnal eu hasesiadau risg unigol gartref. Cadarnhaodd fod fideo ar gael ar dudalen mewnrwyd y Cyngor sy'n esbonio sut i gynnal yr asesiadau. O ran pa mor hir y mae gweithiwr yn edrych ar sgrin, mae hyn hefyd yn gyfrifoldeb pob gweithiwr, a dylai fod seibiannau priodol yn ystod y dydd.

Yn dilyn ystyriaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, a thrwy Microsoft Forms, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

> PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion:

1. Cymeradwyo'r Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol sydd ynghlwm yn Atodiad 1, y polisi Cyfarpar Sgrin Arddangos sydd ynghlwm yn Atodiad 2 a'r Cynllun Rheoli Asbestos Corfforaethol sydd ynghlwm yn Atodiad 3.

2. Dirprwyo cymeradwyo polisïau a gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch ac Adnoddau Dynol wedi'u diwygio i'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol, Eiddo a Phriffyrdd, y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol a Phennaeth Gwasanaethau Pobl. Ni fydd y broses ymgynghori yn newid, a bydd polisïau a gweithdrefnau newydd yn parhau i gael eu cyflwyno i'r Cabinet i'w cymeradwyo.

Terfynwyd y cyfarfod am 13:45.

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mehefin, 2024.

______________________________Cadeirydd________________________________